# Adroddiad Arolygiad Gwerthuso Perfformiad

## Cyngor Dinas Casnewydd Gwasanaethau Oedolion

Ebrill 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.
© Hawlfraint y Goron 2025
WG52078 ISBN Digidol 978-1-83715-591-0

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau cymdeithasol oedolion yng Nghyngor Dinas Casnewydd rhwng 03 Chwefror 2025 a 07 Chwefror 2025.

**1.2** Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r ddeddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Gwnaethom ystyried y safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru* a'r llinellau ymholi allweddol. Gwnaethom geisio ateb y cwestiynau canlynol yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf):

### 1.3 Pobl – llais a rheolaeth

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni’r hyn sy’n bwysig iddo?

I ba raddau y mae safbwyntiau'r bobl yn cael eu casglu a'u cofnodi, gan ystyried eu hamgylchiadau personol, eu canlyniadau personol, eu cryfderau, eu risgiau a'u rhwystrau?

### 1.4 Atal

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth, cyngor, a chymorth sy'n hawdd cael gafael arnynt, ac a yw'r bobl yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar?

### 1.5 Llesiant

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff pobl eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

### 1.6 Partneriaeth

I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?

A yw pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddylunio a darparu eu gofal a’u cymorth fel partneriaid cyfartal?

## 2. Rhestr Terminoleg a Diffiniadau o Niferoedd

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad 1 a thabl yn nodi diffiniadau o niferoedd yn Atodiad 2.

## 3. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Arolygiad

**3.1** Mae arweinwyr gwasanaethau oedolion yr awdurdod lleol yn llywio tirwedd gymhleth lle ceir galw uchel, anghenion cynyddol gymhleth, a phwysau cyllidebol sylweddol. Maent yn deall nodweddion a heriau unigryw eu cymuned, ac mae hyn yn eu galluogi i roi cynlluniau strategol ar waith sy'n cyfateb adnoddau ag anghenion a risgiau a nodwyd. Mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy arweinyddiaeth strategol effeithiol, partneriaethau cryf, a ffocws cyson ar atal ac ymyrryd yn gynnar.

**3.2** Mae'r arweinwyr strategol yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd yn 2022-27. Mae gweledigaeth strategol y cyngor yn canolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth, gwella ansawdd bywyd a sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau mewn modd amserol. Ategir y weledigaeth hon gan gydweithio â byrddau strategol megis Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, sy'n helpu i sicrhau canlyniadau integredig a chynaliadwy i bobl.

**3.3** Mae'r ymarferwyr yn dangos ymroddiad ac ymrwymiad cryf i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn yn niwylliant cadarnhaol y gweithlu, a dywedodd 95% o'r staff a ymatebodd i'n harolwg y byddent yn argymell yr awdurdod lleol fel lle i weithio. Nododd y staff fod yr arweinyddiaeth gefnogol, y natur gynhwysol a'r pwyslais ar lesiant cyflogeion yn ffactorau allweddol a oedd yn cyfrannu at eu profiad cadarnhaol yn y gwaith.

**3.4** Mae'r awdurdod lleol yn pwysleisio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, ac roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth a welsom yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl a'u canlyniadau personol. Gellid atgyfnerthu'r ymarfer ymhellach drwy roi mwy o ffocws ar sut y gall pobl ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau personol i hybu eu llesiant eu hunain.

**3.5** Mae'r awdurdod lleol yn dangos arferion diogelu cadarn, gan ymateb yn brydlon ac yn gymesur i bryderon. Mae cydweithio amlasiantaethol effeithiol yn sicrhau ymatebion cydgysylltiedig, ac mae diwylliant diogelu cadarn yn ymgorffori'r egwyddor bod cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu pobl. Roedd yr arferion diogelu yn dilyn y

canllawiau a amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, gan sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth â'r safonau cenedlaethol.

**3.6** Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad clir i atal a darparu help cynnar, ac mae'r ffaith ei fod wedi penodi Pennaeth Atal a Chynhwysiant dynodedig yn ategu'r ymrwymiad hwn. Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i integreiddio'n dda, ac mae'r arweinwyr yn gweithio'n gyson tuag at gynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. Er bod meysydd i'w gwella o hyd, mae'r broses gyffredinol o roi gwasanaethau atal a help cynnar ar waith, a nodir yn Neddf 2014, wedi'i sefydlu'n dda.

**3.7** Mae gan yr awdurdod lleol bartneriaethau cadarn sy'n gwella'r broses o ddarparu gofal a chymorth integredig. Mae'r dull cydweithredol hwn yn agwedd allweddol ar strategaeth yr awdurdod lleol, sy'n ei alluogi i ddiwallu anghenion amrywiol ei gymunedau yn effeithiol.

**3.8** Ymhlith y meysydd i'w gwella mae lleihau amseroedd aros am asesiadau ac adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth, mynd i'r afael ag oedi cyn ymateb i geisiadau am wybodaeth, cyngor a chymorth, gwella ansawdd a natur fyfyriol goruchwyliaeth ffurfiol, cysoni prosesau sicrhau ansawdd a gwella'r broses o gofnodi cynigion eirioli.

## 4. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau allweddol a'n tystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014.

### <u>Pobl – Llais a Dewis</u>

### Cryfderau

**4.1** Caiff y rhan fwyaf o bobl eu trin â pharch ac urddas. Dywedir bod y staff yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt, a'u bod yn gwneud ymdrech i ddeall anghenion pobl a'u diwallu. Mae'r Tîm Cyswllt Cyntaf yn cynnal sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn fedrus, gan nodi cryfderau ac anghenion pobl er mwyn darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae llawer o bobl yn cytuno bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gweithio mewn partneriaeth â nhw. Mae'r **ymarfer cadarnhaol** hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion a amlinellir yn Neddf 2014.

**4.2** Ar y cyfan, mae'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn adlewyrchu anghenion a dewisiadau'r bobl, yn amlinellu nodau personol ac yn nodi'r dulliau cymorth a ffefrir. Mae'r awdurdod

lleol yn gwerthfawrogi'r hyn y mae pobl ei eisiau ac yn sicrhau bod eu cydsyniad a'u cyfranogiad yn rhan greiddiol o'r broses.

**4.3** Mae'r arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion eu cymuned ac maent wedi datblygu cynlluniau strategol i ddyrannu adnoddau yn effeithiol yn seiliedig ar flaenoriaethau a risgiau a nodwyd.

**4.4** Mae staff gwasanaethau oedolion Casnewydd yn hyblyg, yn broffesiynol ac yn gadarnhaol, a rhoddir pwyslais ar gymhwyso dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae bron pob aelod o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan gydweithwyr a rheolwyr. Er gwaethaf cyfyngiadau ariannol a heriau o ran recriwtio, mae'r staff yn dangos gwydnwch ac ymroddiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Mae Cynllun Pobl Cyngor Dinas Casnewydd 2023-2028 yn nodi'r dull ar gyfer sicrhau llesiant cyflogeion, sy'n helpu i gynnal gweithlu brwdfrydig. Dywed y staff fod yr arweinwyr yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt, gan nodi *'Newport adult services has a very supportive culture and inclusive nature. Newport breeds loyalty through respect shown to the workers.*' Mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** gan fod yr arweinwyr yn dangos ymddygiadau sy'n meithrin amgylchedd gwaith cefnogol a chynhwysol.

**4.5** Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn gadarnhaol wrth sôn am ddatblygiad y gweithlu, gan nodi bod cyfleoedd hygyrch ar gael sy'n cael eu hyrwyddo'n weithredol. Ceir ffocws ar ddatblygiad proffesiynol, sy'n cefnogi dull 'tyfu eich hun' ar gyfer staff gwaith cymdeithasol mewnol. Anogir y staff i ymgymryd â hyfforddiant Asesydd Lles Pennaf a Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy. Mae'r ymrwymiad i ddatblygu'r gweithlu yn sicrhau bod y staff mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion sy'n newid y gymuned a diogelu pobl. Er bod sylwadau'r rhan fwyaf o'r staff yn gadarnhaol, mynegodd rhai awydd am hyfforddiant sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion penodol yn well. Dylai'r arweinwyr weithio gydag ymarferwyr i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gynllunio i fodloni gofynion amrywiol pob aelod o'r staff. Ar y cyfan, ceir ymrwymiad cryf i ddatblygu'r gweithlu, a chaiff hyn ei groesawu.

**4.6** Mae'r cynnig rhagweithiol o gymorth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i bron pawb. Mae mesurau rhagweithiol yn hybu'r Gymraeg, gan gynnwys Grwpiau Siawns am Sgwrs rheolaidd fel rhan o gynllun Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Casnewydd. Pan fydd pobl yn nodi iaith arall ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg fel eu dewis iaith, mae'r llinell iaith yn sicrhau cyfathrebu effeithiol, a chaiff llenyddiaeth ei chynhyrchu mewn amrywiaeth o ieithoedd er mwyn diwallu anghenion amrywiol.

4.7 Caiff anghenion y rhan fwyaf o ofalwyr eu nodi a'u hasesu mewn modd amserol. Mae'r mwyafrif o ofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi, a bod eu cyfraniadau yn cael eu cydnabod a'u cefnogi. Rhoddir gwybodaeth gywir ac amserol i ofalwyr am eu hawliau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, drwy

adnoddau megis llawlyfr gofalwyr, cyfeiriadur gofalwyr a chylchlythyr misol. Nid oedd rhai gofalwyr yn ymwybodol eu bod wedi cael asesiad. Gellid atgyfnerthu'r cymorth i ofalwyr drwy sicrhau bod canlyniadau asesiadau yn cael eu rhannu mewn modd amserol a bod gofalwyr yn cael gwybod yn glir pan fyddant wedi cael eu hasesu.

**Meysydd i'w Gwella**

**4.8** Caiff y rhan fwyaf o sesiynau goruchwylio eu cwblhau o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, teimlai rhai o'r staff nad oedd sesiynau goruchwylio ffurfiol yn ddigon manwl nac yn cynnig cyfle i fyfyrio'n ystyrlon, ac roedd hyn yn amlwg yn y cofnodion a welsom. Gellid cryfhau sesiynau goruchwylio ffurfiol drwy roi mwy o bwyslais ar ymarfer myfyriol a chamau gweithredu cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS). **Dylai'r arweinwyr weithio gyda'r rheolwyr i ddatblygu safonau cyson ar gyfer goruchwylio.**

**4.9** Caiff gweithgareddau sicrhau ansawdd eu cynnal o fewn timau ac mae'r arweinwyr yn monitro perfformiad yn rheolaidd. Roedd dulliau sicrhau ansawdd yn amrywio rhwng timau ac nid oedd arferion gorau yn cael eu rhannu'n gyson. **Dylai'r arweinwyr gryfhau'r trefniadau i sicrhau bod safonau y cytunwyd arnynt yn cael eu cymhwyso'n gyson a datblygu dull sicrhau ansawdd ffurfiol i wella ymarfer.**

**4.10** Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu gwasanaethau eirioli, a dywed llawer o bobl eu bod wedi cael cynnig eiriolaeth. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i adlewyrchu'n gyson yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom. Mae angen i ymarferwyr sicrhau bod unrhyw eiriolaeth ffurfiol ac anffurfiol a gynigir yn cael ei chofnodi'n gywir. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff eiriolaeth ei chydnabod, ei chynnig a'i chofnodi'n gyson.**

**4.11** Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar eu cryfderau a'r ‘hyn sy'n bwysig’ iddynt. Mae angen gwella'r broses o gofnodi sut y gall pobl ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau i hybu eu llesiant. **Dylai'r arweinwyr wneud yn siŵr bod asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn cynnwys gwybodaeth fanwl o ran sut y bydd cryfderau ac adnoddau person yn sicrhau canlyniadau.**

**<u>Atal</u>**

**Cryfderau**

**4.12** Mae'r awdurdod lleol wedi croesawu diwylliant o atal a darparu help cynnar yn unol â Deddf 2014. Mae'r ffaith bod gan yr awdurdod lleol Bennaeth Atal a Chynhwysiant dynodedig yn pwysleisio ei ymrwymiad i'r dull gweithredu hwn, gan

greu systemau a mentrau cryf. Er y gallai fod yn fuddiol gwella rhai meysydd ymhellach, mae'r ymrwymiad cyffredinol i'r egwyddorion hyn, a'r broses o'u rhoi ar waith, yn **ymarfer cadarnhaol**.

**4.13** Cred llawer o bobl fod y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol drwy'r Tîm Cyswllt Cyntaf yn ddefnyddiol. Mae pobl yn cael gwybodaeth gywir, sy'n eu helpu i ddeall prosesau, cael gafael ar wasanaethau, a gwneud penderfyniadau gwybodus.

**4.14** Mae gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar yn cysylltu pobl â chymorth a gweithgareddau yn y gymuned sy'n hybu llesiant. Mae'r gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol yn cynnig cymorth lleol sy'n cysylltu pobl â gwasanaethau a chyfleoedd yn eu cymunedau. Mae'n helpu unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau, datblygu sgiliau, a meithrin cydberthnasau yn eu hardaloedd lleol. Ystyrir bod Cysylltwyr Cymunedol yn effeithiol iawn o ran nodi cymorth cymunedol, lleihau'r angen am wasanaethau wedi'u comisiynu, a rheoli galw. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

**4.15** Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymo i roi Strategaeth Gofalwyr Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar waith, gan wella'r gydnabyddiaeth a'r cymorth a roddir i ofalwyr di-dâl. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth gywir am hawliau gofalwyr, helpu gofalwyr i gydbwyso cyfrifoldebau, a'u cefnogi drwy wasanaethau fel 'Pontio'r Bwlch', sy'n helpu gofalwyr i gymryd seibiannau angenrheidiol. Mae menter Chatty Café yn lleihau ynysigrwydd ac mae mynediad at dechnoleg gynorthwyol yn cefnogi annibyniaeth. Nododd un gofalwr,*"The support received for my husband and myself as his carer has been incredible. We were listened to, our thoughts and feelings always taken into account, and regular updates provided."* **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

**4.16** Mae'r awdurdod lleol yn meithrin partneriaethau cydweithredol â sefydliadau yn y trydydd sector. Mae'n dyrannu adnoddau mewn modd strategol er mwyn cryfhau help cynnar a chymorth ataliol. Siaradodd partneriaid yn y trydydd sector yn galonogol am eu **partneriaethau cadarnhaol** â'r awdurdod lleol i hwyluso canlyniadau llesiant pobl. Gwnaethant ddweud wrthym, *'Newport has developed a very robust understanding and strong communication with us. The relationships work very well, and we feel our voice is respected.*'

**Meysydd i'w Gwella**

**4.17** Mae'r bartneriaeth rhwng y Tîm Cyswllt Cyntaf a gwasanaethau atal a help cynnar, ynghyd â'r defnydd o asesiadau cymesur, yn anelu at sicrhau cymorth amserol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl. Mewn rhai cofnodion gofal cymdeithasol, gwelsom ddiffyg camau dilynol a goruchwyliaeth, gan olygu bod pobl

yn cael eu cyfeirio'n amhriodol at wasanaethau atal a help cynnar neu dimau cymorth hirdymor. Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd i sicrhau cymorth amserol yn cael eu colli. **Dylai'r arweinwyr sicrhau bod systemau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn helpu i oruchwylio'r penderfyniadau a wneir yn effeithiol. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir.**

**4.18** Mae'r gwasanaeth Ailalluogi yn wynebu heriau sy'n effeithio ar ei allu i ddarparu cymorth ataliol a help cynnar. Mae llai o gymorth gan reolwyr, mwy o alw, ac oedi cyn cynnal asesiadau gwaith cymdeithasol yn effeithio ar effeithlonrwydd y gwasanaeth. **Rhaid i'r arweinwyr sicrhau y caiff asesiadau gwaith cymdeithasol eu cwblhau'n amserol ac y caiff unigolion eu recriwtio'n amserol i lenwi swyddi gwag.**

**4.19** Mae'r awdurdod lleol yn darparu taliadau uniongyrchol ac yn gweithio gyda darparwr preifat at ddibenion recriwtio, contractau ac yswiriant er mwyn symleiddio prosesau gweinyddol. Ymhlith y meysydd i'w gwella mae amseroedd aros, gwybodaeth anghyson ymarferwyr am daliadau uniongyrchol, a gwallau wrth anfonebu. Mae'r gwasanaeth penodeion yn llawn ar adegau, sy'n achosi oedi i'r rhai y mae angen penodai arnynt at ddibenion taliadau uniongyrchol. Mae'r awdurdod lleol yn anelu at gynyddu nifer y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol 20% fel rhan o Gynllun Gwasanaethau Oedolion 2024-2025, ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni hyn. Ymhlith gwelliannau diweddar mae gweithdrefnau newydd, mapio prosesau, a gwiriadau sicrwydd rheolaidd. **Dylai'r arweinwyr barhau i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn fwy hygyrch ac effeithiol.**

**4.20** Ceir oedi wrth ymateb i rai ceisiadau am wybodaeth, cyngor neu gymorth. Er bod y ceisiadau hyn yn cael eu sgrinio er mwyn eu blaenoriaethu a bod system ar waith ar gyfer ymdrin ag anghenion brys, dywed pobl y gall yr amseroedd aros fod yn hir. Mae'r amseroedd aros yn amrywio yn dibynnu ar y galw a lefelau staffio. Mae lleihau'r oedi hwn yn hanfodol er mwyn gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael mewn modd amserol.**

**4.21** Mewn rhai meysydd gwasanaeth, ceir oedi wrth asesu anghenion pobl ac adolygu eu cynlluniau gofal a chymorth. Rhoddodd yr uwch-aelodau o'r staff sicrwydd eu bod yn monitro'r rhai sy'n aros am asesiadau ac adolygiadau yn rheolaidd, a bod system adolygu blaenoriaeth ar waith. Mae'r staff yn diweddaru blaenoriaeth pobl am asesiad gan ddefnyddio'r Adnodd Asesu Risg ar gyfer Blaenoriaethu Gofal Cymdeithasol ac yn eu cynghori ynghylch beth i'w wneud os bydd eu sefyllfa'n newid. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael asesiadau, adolygiadau a chynlluniau i ddiwallu eu hanghenion mewn modd amserol.**

## Llesiant

### Cryfderau

**4.22** Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i adroddiadau am ddiogelu oedolion mewn modd amserol a chymesur. Mae'n cynnal gwiriadau cychwynnol, ymholiadau  o dan adran 126 o Ddeddf 2014, trafodaethau strategaeth, cyfarfodydd ac ymchwiliadau yn unol â gofynion statudol. Mae'n blaenoriaethu diogelwch a llesiant pobl. **Mae hyn yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol a dylai barhau.**

**4.23** Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â gwasanaethau iechyd, yr heddlu ac asiantaethau eraill er mwyn sicrhau ymatebion cydgysylltiedig ac amserol i bryderon am ddiogelu. Mae cyfarfodydd strategol rheolaidd a chyfrifoldebau a rennir yn dangos dull unedig o amddiffyn pobl agored i niwed. Tynnodd partneriaid diogelu sylw at effeithiolrwydd gwaith amlasiantaethol, gan nodi "*Links are very beneficial, and the sharing of information is paramount – it feels like it works well in Newport."* Mae'r ffaith bod yr heddlu wedi'i gyd-leoli yn arbennig o effeithiol. Mae'r partneriaethau hyn yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau, yn datrys gwahaniaethau, ac yn cadw pobl yn ddiogel. Mae hyn yn **ymarfer cadarnhaol**, a dylai partneriaid barhau i gydweithio er mwyn diogelu pobl.

**4.24** Mae'r awdurdod lleol yn meithrin diwylliant diogelu cadarn, gan ymgorffori'r egwyddor bod cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu pobl. Mae'r **diwylliant cadarnhaol** hwn yn sicrhau bod pawb yn deall egwyddorion diogelu ac yn eu cymhwyso'n gyson ym mhob rhan o'r awdurdod lleol, a gyda rhanddeiliaid allanol.

**4.25** Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar gynyddu'r garfan o Aseswyr Lles Pennaf ac ar gynyddu gallu'r rheolwyr i awdurdodi achosion o amddifadu o ryddid. Caiff cydymffurfiaeth â Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ei monitro, gan wella dealltwriaeth yr awdurdod lleol o'i gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae prosesau amddiffyn cyfreithiol ar waith ar gyfer llawer o bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid a rhoddir cyfle iddynt herio awdurdodiad ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, ac mae'r arweinwyr yn monitro'r trefniadau yn rhagweithiol.

**4.26** Yn y rhan fwyaf o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welsom, roedd yr ymarferwyr wedi ystyried galluedd meddyliol y bobl i gymryd rhan yn eu hasesiadau, y broses o gynllunio eu gofal a'u cymorth, ac ymholiadau diogelu. Caiff hyn ei gyflawni drwy raglenni hyfforddiant cynhwysfawr sy'n rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ymarferwyr i gymhwyso egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn effeithiol. Roedd yr asesiadau o alluedd meddyliol a welsom yn drylwyr, gan ddangos dull cyson o sicrhau bod galluedd pobl i wneud penderfyniadau yn cael ei asesu a'i gefnogi'n briodol.

**Meysydd i'w Gwella**

**4.27** Mae recriwtio a chadw gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy yn her sylweddol i'r awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y broblem hon ac yn cymryd camau i gynyddu nifer y gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy drwy ymgyrchoedd recriwtio penodol, hyfforddiant ychwanegol, cyfleoedd datblygu, a thaliadau uwch. Mae adolygiad o'r gwasanaeth gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy yn mynd rhagddo er mwyn nodi meysydd i'w gwella a sicrhau bod y gwasanaeth yn ateb y galw presennol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo ddigon o weithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.**

**4.28** Mae gan yr awdurdod lleol ddau bwynt mynediad ar gyfer atgyfeiriadau diogelu, ac mae hyn yn golygu bod cyfleoedd i sicrhau help cynnar a chymorth ataliol yn cael eu colli. Er enghraifft, pan fydd pobl yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol at y tîm diogelu, mae'n bosibl y caiff yr adroddiad ei gau ac na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd os na fydd angen dybryd i'w diogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod. Gall y broses hon anwybyddu'r angen posibl am help cynnar neu gymorth ataliol. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu rhoi un pwynt mynediad ar waith drwy'r Tîm Cyswllt Cynnar ar gyfer pob atgyfeiriad diogelu. Drwy wneud hyn, y nod yw sicrhau bod pobl yn cael yr ymyriadau a'r cymorth priodol sydd eu hangen arnynt. **Dylai'r awdurdod lleol ganolbwyntio ar roi'r system newydd i wella ymatebion i atgyfeiriadau diogelu ar waith yn llwyddiannus, ac effeithiolrwydd y system honno, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.**

**4.29** O ran y camau a gymerir gan y tîm diogelu pan fydd pryderon am ddarparwr gofal yn cael eu codi, nid oedd unrhyw dystiolaeth yn rhai o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welsom ei fod yn rhannu'r adroddiadau ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn trafod yr adroddiad ag AGC, nac yn gwahodd AGC i drafodaethau strategaeth. **Rhaid i'r awdurdod lleol rannu gwybodaeth â'r rheoleiddiwr perthnasol bob amser pan fydd adroddiadau am ddiogelu yn dangos methiant darparwr rheoleiddiedig i gyrraedd safonau gofal neu gydymffurfio â rheoliad.**

**4.30** Tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid Gwent, a gynhelir gan y Bwrdd Iechyd, sy'n gyfrifol am reoli'r broses ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar gyfer Casnewydd yn ogystal ag awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth. Mae rôl y consortiwm wrthi'n cael ei hadolygu ac fel rhan o'r adolygiad hwn, mae Casnewydd wedi treialu'r broses o sgrinio ceisiadau, gan lwyddo i leihau'r rhestr aros. Erys heriau o hyd o ran cyfrifoldebau llywodraethu a chyllido'r consortiwm. Bydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn gwella cydweithio rhanbarthol a chydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o

Ryddid. **Dylai'r arweinwyr barhau i weithio gyda phartneriaid yn y rhanbarth i wella Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.**

**<u>Partneriaeth</u>**

**Cryfderau**

**4.31** Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadeirio grŵp arwain y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan ysgogi gwelliannau a sicrhau cysylltiadau cryf â phartneriaid ym maes iechyd, tai a'r trydydd sector. Mae'r Pennaeth Atal a Chynhwysiant yn integreiddio gwasanaethau ac yn cefnogi rhaglen y boblogaeth gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r arweinwyr yn dangos cysondeb strategol ac ymrwymiad i wella canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol pobl.

**4.32** Mae arweinwyr yr awdurdod lleol yn datblygu gwasanaethau a dulliau gweithredu sy'n gwella trefniadau cydweithio mewnol. Mae integreiddio'r tîm Atal a Chynhwysiant â'r gwasanaethau oedolion yn meithrin dull cyfannol o ddarparu gofal a chymorth. Mae'r gydberthynas gref rhwng y Tîm Cyswllt Cyntaf, y gwasanaeth eiddilwch, a'r tîm diogelu yn sicrhau cyfathrebu a chymorth effeithiol. Mae cyfarfodydd amlddisgyblaethol a strategol rheolaidd yn atgyfnerthu'r cydweithio a'r gallu i ddatrys problemau ymhellach ar draws y timau.

**4.33** Mae ymarferwyr yr awdurdod lleol yn meithrin cydberthnasau proffesiynol â phobl ar sail cydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Maent yn cydnabod pwysigrwydd ymddiriedaeth ac yn ymdrechu'n barhaus i ymgysylltu. Mae hyn yn helpu i wella effeithiolrwydd a dibynadwyedd y cymorth a ddarperir.

**4.34** Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â phartneriaid i wella llesiant oedolion ag anghenion gofal a chymorth. Mae'r ymarferwyr, y rheolwyr a'r uwch-arweinwyr yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd, tai, cyfiawnder troseddol a sefydliadau cymunedol i ddarparu cymorth cydgysylltiedig. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi ffyrdd iach o fyw drwy fentrau megis presgripsiynu cymdeithasol a chysylltwyr cymunedol. Dywedodd partneriaid wrthym *"We work so closely with Adult Services and sometimes my team are the ones completing assessments. Communication between teams is good and ever progressing. I think we are all keen to work together*.' **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

**4.35** Mae'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn dangos cydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd. Mae'r tîm sydd wedi'i gyd-leoli yn darparu gofal integredig, gan fynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl a

chymdeithasol. Dywedodd yr ymarferwyr wrthym fod cyd-leoli yn gwella prosesau cyfathrebu, yn hwyluso penderfyniadau cyflymach ac yn golygu bod modd rheoli achosion yn fwy effeithlon.

**Meysydd i'w Gwella**

**4.36** Mae enghreifftiau ymarferol o gydgynhyrchu mewn amrywiaeth o feysydd, megis cyflwyno tendrau a datblygu Strategaeth Cymuned Oed-gyfeillgar. Drwy wella arferion cydgynhyrchu ac ymgysylltu ymhellach, byddai'r awdurdod lleol yn sicrhau mwy o gysondeb ag egwyddorion Deddf 2014, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u darparu mewn partneriaeth â'r bobl sy'n eu defnyddio. **Dylai'r awdurdod lleol wella'r egwyddorion cydgynhyrchu ymhellach yn ei strategaethau a'i gynlluniau.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 32 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 26 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain chwech.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu â 14 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws.
- Gwnaethom ymgysylltu â 55 o gyflogeion yr awdurdod lleol a'r aelod etholedig ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol oedolion drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gwasanaethau, penaethiaid gwasanaethau, a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.
- Gwnaethom ymgysylltu â 18 o ymarferwyr ac arweinwyr o sefydliadau partner drwy gyfweliadau.

- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio staff.
- Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod cynllunio ar gyfer gwasanaeth a gomisiynwyd yn ddiweddar i bobl ag anableddau dysgu a gweithgor prosiect ar gyfer gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl. Clywsom gan 79 o aelodau o staff, 48 o bobl ac un asiantaeth bartner drwy ein harolygon arolygu.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

**7. Y Gymraeg**

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol ar yr achlysur hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr arolygiad gwerthuso perfformiad hwn yn Gymraeg.

**8. Cydnabyddiaethau**

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## Atodiad 1

### Rhestr Terminoleg

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod |

| | |
|---|---|
| | lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant a chyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at atgyfnerthu'r cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

## Atodiad 2

**Tabl Diffiniadau o Niferoedd**

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |